# GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD CAIS, CYFLWYNO AC ASESU DOETHURIAETHAU UWCH

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Dyddiad A Gymeradwywyd Gan Y Senedd / ASQC** | 23.05.2024 (ASQC) (Mân newidiadau) |
| **Dyddiad Dod i Rym** | 01.08.2024 |
| **Perchennog y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu â ni** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoliad Rhiant** | Rheoliadau ar gyfer Doethuriaethau Uwch |

# CYNNWYS

1. Datganiadau Cyffredinol ........ 1
2. Cam 1: Cais cychwynnol ........ 1
3. Cam 2: Adolygiad rhagarweiniol ........ 2
4. Cam 3: Penodi aseswyr ........ 3
5. Cam 4: cyflwyniad llawn ........ 3
6. Cam 5: Asesu ........ 4
7. Cam 6: Canlyniad ........ 5
8. Ailgyflwyno cais ........ 5

# GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD CAIS, CYFLWYNO AC ASESU DOETHURIAETHAU UWCH

## 1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae'r gweithdrefnau hyn yn ymwneud â dyfarnu doethuriaethau uwch gan Brifysgol Caerdydd.

1.2 Ceir y meini prawf cymhwyster a'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad yn y Rheoliadau ar gyfer Doethuriaethau Uwch.

1.3 Mae'r weithdrefn ar gyfer asesu cyflwyniadau ar gyfer dyfarnu doethuriaeth uwch yn cynnwys y camau canlynol:

.1 cais cychwynnol;

.2 adolygiad rhagarweiniol

.3 penodi aseswyr;

.4 cyflwyniad llawn;

.5 asesiad;

.6 canlyniad.

## 2. Cam 1: Cais cychwynnol

2.1 Dylai ymgeiswyr cymwys sydd am gael eu hystyried ar gyfer dyfarnu doethuriaeth uwch gyflwyno i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR):

.1 ffurflen gais wedi'i llenwi

.2 rhestr o gyhoeddiadau neu gyfansoddiadau cynrychioliadol (yn achos y DMus) y mae'r ymgeisydd yn dymuno eu cyflwyno i'w hystyried (gweler 2.3);

.3 datganiadau sy'n dangos cyfraniad bob awdur yn glir ar gyfer pob cyhoeddiad a ysgrifennwyd ar y cyd;

.4 sylwebaeth o 2,000 - 2,500 o eiriau (gweler 2.6 - 2.7);

.5 Curriculum Vitae (CV) (gweler 2.8);

.6 ffi cais cychwynnol.

2.2 Bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn cydnabod derbyn y cais cychwynnol o fewn **14 diwrnod**.

2.3 Gan fod normau cyhoeddi yn amrywio yn ôl maes, nid oes nac isafswm nac uchafswm o ran nifer y cyhoeddiadau sydd angen eu cyflwyno. Mae’n bosibl y bydd nifer fechan o allbynnau ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol neu a gaiff eu diffinio'n ddisgybledig ac a gyhoeddwyd mewn fforymau nodedig yn cynrychioli achos mor gryf dros y wobr â nifer fwy o bapurau o ansawdd uchel neu o fri.

2.4 Er na ellir eu cymharu'n uniongyrchol, fel canllaw dylai'r cyhoeddiadau adlewyrchu, gyda'i gilydd, lefel y cyflawniad cydnabyddedig sy'n ofynnol ar gyfer aelodaeth o gymdeithasau dysgedig.

2.5 Gan fod gweithio ar y cyd yn fwy cyffredin mewn rhai meysydd nag eraill, mae cyhoeddiadau cyd-awduron yn dderbyniol pan fo'r ymgeisydd yn brif awdur neu'n brif gydweithiwr ymchwil. Yn rhan o'r esboniad, dylai ymgeiswyr egluro eu rôl eu hunain yn y gwaith ymchwil yn glir, a bydd disgwyl iddynt ddarparu datganiadau clir o’u cyfraniad ar gyfer pob cyhoeddiad a ysgrifennwyd ar y cyd. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gysylltu â chyfranwyr i wirio cyfranogiad yr ymgeisydd.

2.6 Dylai'r sylwebaeth ddangos sut mae'r cyhoeddiadau gyda'i gilydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarnu doethuriaeth uwch.

2.7 Yn benodol, dylai:

.1 amlinellu themâu a nodweddion allweddol y gwaith;

.2 dangos sut mae’r gwaith wedi gwneud cyfraniad gwahanol a gwreiddiol i wybodaeth/ysgolheictod dros amser maith;

.3 rhoi'r gwaith mewn cyd-destun rhyngwladol ac mewn perthynas â llenyddiaeth a disgwyliadau sy'n benodol i bwnc;

.4 disgrifio’n glir rôl yr ymgeisydd mewn unrhyw waith aml-awdur.

2.8 Dylai'r CV gynnwys tystiolaeth o gydnabyddiaeth ac arwyddocâd yr ymchwil, er enghraifft drwy roi'r prif anerchiadau mewn cynadleddau rhyngwladol uchel eu parch, cyhoeddi llyfrau/papurau/cyfansoddiadau o fri sydd wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau rhyngwladol, neu gynhyrchu incwm ymchwil cyson a pharhaus sy’n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar gyfer y ddisgyblaeth.

2.9 Fel rhan o'r ffurflen gais, gofynnir i ymgeiswyr nodi faint o'r gwaith, os o gwbl, a gyflwynwyd, neu sy'n digwydd ar yr un pryd, mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd arall.

2.10 Gellir gwneud cais cychwynnol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

## 3. Cam 2: Adolygiad rhagarweiniol

3.1 Caiff y rhestr o gyhoeddiadau/cyfansoddiadau cynrychioliadol, sylwadau cysylltiedig, a CV eu hadolygu gan Banel y Brifysgol a fydd yn cynnwys:

.1 Rhag Is-Ganghellor y Coleg perthnasol, a bennir gan faes penodol y dyfarniad, a fydd yn gweithredu fel Cadeirydd;

.2 Pennaeth Ysgol, yn berthnasol i'r maes pwnc dan sylw;

.3 aelod o staff athrawiaethol sydd â gwybodaeth ddigonol o'r pwnc, a nodwyd gan Rhag Is-Ganghellor y Coleg.

3.2 Ni fydd y Panel yn adolygu unrhyw un o'r cyhoeddiadau ar y pwynt hwn ond bydd yn penderfynu a oes achos *prima facie* dros ganiatáu i'r ymgeisydd symud i gam cyflwyniad llawn.

3.3 Os yw'n gadarnhaol, ni ddylid ystyried bod y penderfyniad yn warant y caiff y radd ei dyfarnu, gan y bydd y cyflwyniad yn cael ei asesu'n annibynnol ar y Panel hwn.

3.4 Bydd y Cadeirydd yn adrodd penderfyniad y Panel i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) o fewn **wyth wythnos** i dderbyn y cais. Bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn hysbysu'r ymgeisydd yn unol â hynny.

## 4. Cam 3: Penodi aseswyr

4.1 Os yw Panel y Brifysgol yn fodlon bod achos *prima facie* dros ganiatáu cyflwyniad llawn, bydd y Cadeirydd yn enwebu dau aseswr annibynnol i archwilio'r gwaith. Bydd y ddau asesydd or tu allan i'r Brifysgol.

4.2 Rhaid i'r aseswyr fod yn aelodau cyfredol neu'n gyn-aelod o staff academaidd o fewn y sector addysg uwch ar lefel darllenydd neu athro, <u>neu</u> yn ddiwydianwyr, ymchwilwyr neu ymarferwyr blaenllaw (os yn berthnasol ar gyfer y maes ymchwil). Dylent fod yn ymchwilwyr a chyhoeddwyr toreithiog nodedig, ac er y cydnabyddir bod natur y dyfarniad yn golygu bod y cyflwyniad yn debygol o gwmpasu maes eang, dylent feddu ar wybodaeth ac arbenigedd sy'n ddigon arbenigol i alluogi asesiad trwyadl o'r gwaith a'i gyfraniad i'r ddisgyblaeth.

4.3 Mae'n rhaid i aseswyr enwebedig ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gyda'r ymgeisydd cyn y penodiad. Os caiff achos o wrthdaro ei ddatgan, cysylltir ag asesydd arall.

4.4 Bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn gwneud y penodiadau ar ran y Senedd cyn pen **wyth wythnos** ar ôl i'r Panel ddod â'r adolygiad rhagarweiniol i ben.

## 5. Cam 4: cyflwyniad llawn

5.1 Os caniateir cyflwyniad llawn, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu naill ai ddau gopi caled neu un copi electronig o bob un o'r cyhoeddiadau a restrir yn rhan o'r cais cychwynnol i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR).

5.2 Bydd gweddill y ffi arholi yn daladwy ar y cam hwn.

5.3 Bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn darparu i'r ddau asesydd: copi o bob cyhoeddiad a nodwyd; y sylwadau cysylltiedig; CV yr ymgeisydd; Rheoliadau perthnasol y Senedd a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig; a'r adroddiadau gofynnol i'w cwblhau.

5.4 Ni chaniateir i'r ymgeisydd na'r aseswyr gysylltu â'i gilydd ynglŷn â'r cyflwyniad, a bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn gweithredu'n bwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad.

## 6. Cam 5: Asesu

6.1 Bydd pob asesydd yn ystyried y cyflwyniad yn annibynnol ac yn darparu adroddiad manwl ar ansawdd, cwmpas a natur nodedig y gwaith a'r cysondeb â'r meini prawf dyfarnu. Byddant hefyd yn nodi a ddylid dyfarnu'r radd, yn eu barn hwy.

6.2 Yn benodol, gofynnir i'r aseswyr nodi (a chynnwys enghreifftiau eglurhaol) a yw'r cyflwyniad yn cynrychioli ac yn rhoi tystiolaeth o ymchwil sy'n:

.1 helaeth o ran maint ac o'r ansawdd a'r rhagoriaeth uchaf;

.2 awdurdodol ac wedi cael effaith amlwg ar waith pobl eraill;

.3 cydnabyddir yn fyd-eang ac yn bwysig yn rhyngwladol;

.4 darluniol o feistrolaeth yr ymgeisydd ar y maes astudio;

.5 gwreiddiol ac yn nodedig, fel ei bod yn deilwng o'r radd uchaf;

.6 adlewyrchu cyfraniad sylweddol a pharhaus at, neu gymhwyso gwybodaeth, fel bod yr ymgeisydd yn arbenigwr cydnabyddedig yn y maes.

6.3 Pwrpas mynnu y caiff ei gyhoeddi yw sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd wedi bod ar gael i'w feirniadu gan arbenigwyr perthnasol. Mae gan aseswyr y disgresiwn i ddiystyru unrhyw ran o'r gwaith a gyflwynwyd os nad yw'r gwaith, yn eu barn hwy, wedi bod ar gael ar gyfer beirniadaeth, naill ai oherwydd ei ddiffyg hygyrchedd neu am ei fod wedi'i gyflwyno ar gyfer y radd am gyfnod rhy fyr ar ôl ei gyhoeddi.

6.4 Yn ôl disgresiwn yr aseswyr, gellir gwahodd yr ymgeisydd i fynychu cyfweliad i drafod y gwaith. Gellir cynnal y cyfweliad yn bersonol yn y Brifysgol neu mewn lleoliad addas arall, neu drwy ddulliau electronig.

6.5 Dylai'r aseswyr ddychwelyd eu hadroddiadau wedi'u cwblhau i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) o fewn **12 wythnos** i dderbyn y cyflwyniad. Os oes oedi, a allai gynnwys yr angen i drefnu cyfweliad, caiff yr ymgeisydd ei hysbysu, a chaiff amserlenni diwygiedig eu darparu.

6.6 Bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion yr aseswyr i Banel y Brifysgol a gynullwyd i gynnal yr adolygiad rhagarweiniol (fel 3, uchod).

6.7 Os ceir anghytundeb, bydd trydydd asesydd, yn allanol i'r Brifysgol, yn cael ei enwebu gan Rhag Is-Ganghellor y Coleg a'i benodi i asesu'r cais. Ni fydd y trydydd asesydd yn cael gweld yr adroddiadau eraill.

## 7. Cam 6: Canlyniad

7.1 Bydd Panel y Brifysgol yn ystyried adroddiadau'r aseswyr ac, os bydd yn cytuno y dylid dyfarnu'r radd, bydd yn gwneud argymhelliad trwy Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd i'r perwyl hwnnw.

7.2 Yn achos ymgeiswyr a allai fod yn gymwys i gyflwyno cais ar gyfer gradd o dan mwy nag un categori (e.e. naill ai DLitt neu DSc), bydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, gyda chyngor Panel y Brifysgol, yn penderfynu pa radd ddoethurol uwch i'w chyflwyno i'r ymgeisydd llwyddiannus.

7.3 Rhaid i'r ymgeisydd darparu dau gopi caled o'r sylwebaeth a'r rhestr o gyhoeddiadau cynrychioliadol i'r adran Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau Ymchwil Ôl-raddedig) i gael eu cadw yn llyfrgell y Brifysgol ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

7.4 Os nad yw Panel y Brifysgol yn gallu argymell dyfarnu'r radd, bydd Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) yn cadarnhau'r canlyniad i'r ymgeisydd ar ran y Brifysgol. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn copïau o adroddiadau'r aseswyr, y gellir eu defnyddio i lywio unrhyw gais yn y dyfodol.

## 8. Ailgyflwyno cais

8.1 Bydd ymgeiswyr nas gwahoddir i wneud cyflwyniad llawn yn dilyn y cam adolygu rhagarweiniol, a'r rhai nad yw eu cyflwyniad llawn yn teilyngu dyfarnu doethuriaeth uwch, yn gymwys i ailymgeisio ar un achlysur arall.

8.2 Gellir defnyddio'r un Panel Prifysgol ac aseswyr i asesu unrhyw ail-gais, ond dylid adolygu'r cyflwyniad o'r newydd. Pan gaiff Panel newydd ei gynnull neu pan benodir aseswyr amgen, ni roddir copïau o'r adroddiadau blaenorol ar gael.